

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2021

PRESENNOL:	Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, A M Jones ac R Meirion Jones.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Vaughan Hughes a Llinos Medi Huws.
HEFYD YN BRESENNOL:	Dim

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd K P Hughes ddi-ddordeb personol gan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr ac, ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, dywedodd ei fod yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod gan nad yw'r ymgeisydd yn gysylltiad personol agos.

2 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn yn gywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2021.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021, yn amodol ar nodi y bydd y trefniadau ar gyfer y cyfweiliad proffesiynol yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 PENODI STAFF

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod y swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi cael ei ail-hysbysebu rhwng 15 Hydref 2021 a 29 Hydref 2021, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2021. Ychwanegodd, yn dilyn dadansoddiad annibynnol i lunio rhestr fer a

gwblhawyd gan ddau Swyddog AD, yr argymhellir bod y Pwyllgor yn nodi'r ymgeiswyr i gael eu cyfweld.

Argymhellwyd bod y Pwyllgor Penodiadau'n dilyn yr un drefn ag a ddilynwyd wrth benodi nifer o uwch swyddogion yn ddiweddar, sef dilyn proses tri cham:-

- Cynnal cyfweiliad proffesiynol rhwng yr ymgeisydd/ymgeiswyr ar y rhestr fer a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Proffesiwn AD.
- Yr ymgeiswyr ar y rhestr fer i dderbyn cyfweiliadau allanol gan Gatenby Sanderson, yn seiliedig ar broses profion seicometreg.
- Panel Penodi i gynnal cyfweiliadau ffurfiol gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr ar y rhestr fer ac i wneud penderfyniad ynghylch penodi ar ôl ystyried adroddiad llafar ar y cyfweiliadau proffesiynol a'r profion seicometreg.

PENDERFYNWYD rhoi ymgeiswyr 1, 3 a 5 ar y rhestr fer i'w cyfweld ac i gynnal y cyfweiliadau gan ddilyn y broses tri cham a nodir uchod.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**